Ffeithlen i Rhieni:

Proses Adran 47 yn arwain at Asesiad Gofal a Chymorth

Cefndir

Pan fydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn gwybodaeth a gallai eich plentyn neu blant fod mewn perygl, caiff Ymchwiliad neu Ymholiad Amddiffyn Plant ei gynnal dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989. Dan y Ddeddf mae dyletswydd ar y Tîm Asesu Gofal Plant i wneud ymholiadau ac asesu'r sefyllfa pan fydd yn cael hysbysiad y gallai plentyn neu blant fod mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth sylweddol.

Pan fyddwn yn gwneud yr ymholiadau hyn, byddwn yn dilyn ein Trefnau Amddiffyn Plant lleol, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n deillio o ganllawiau'r llywodraeth.

Rydym yn sylweddoli y gall hyn fod yn amser ingol a phryderus. I helpu inni ddeall a oes pryderon difrifol neu beidio, bydd angen i ni wneud **Asesiad Gofal a Chymorth** o'r sefyllfa.

Yr Asesiad Gofal a Chymorth

Rhaid i bob asesiad gynnwys sylwadau'r plentyn yn ogystal â'r teulu. Lle bo modd, byddai cais i bwy bynnag sydd â chyfrifoldeb rhiant roi caniatâd, oni bai fod barn broffesiynol yn awgrymu y byddai hyn yn rhoi plentyn mewn perygl.

Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'n ofynnol mewn cyfraith ar y Tîm Asesu Gofal Plant i wybod beth yw dymuniadau a theimladau'r plentyn ynghylch darparu gwasanaethau. Mae Canllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yn datgan y dylid gweld plentyn neu blant ar eu pennau'u hunain ble bynnag y bo modd. Eto, byddai cais i bwy bynnag sydd â chyfrifoldeb rhiant roi caniatâd oni bai fod barn broffesiynol yn awgrymu y byddai hyn yn rhoi plentyn mewn perygl.

I gael rhagor o wybodaeth:

Ffôn: Cyngor Sir Penfro: 01437 764551

Gweithdrefnau Diogelu Cymru